

Cofnodion Cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Pen-y-bont ar Ogwr

13.05.16

Ystafelloedd Pwyllgor 2/3, Y Ganolfan Ddinesig Pen-y-bont ar Ogwr

Presennol	Sefydliad
Alyson Francis	Llywodraeth Cymru
Andrew Davies	Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
Darren Mephram	Cyngor Bwrdeistref Sirol Penybont ar Ogwr
Deanne Martin	Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru
Eirian Jenkins	Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
Emily Warren	De Cymru Comisiynydd Heddlu a Throsedd
Huw Jakeway	Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Judith Tomlinson	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Martin Jones	Heddlu De Cymru
Martyn Evans	Cyfoeth Naturiol Cymru
Sian Harrop-Griffiths	Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
Ymddiheuriadau	
Cllr Mel Nott	Cyngor Bwrdeistref Sirol Penybont ar Ogwr
Heidi Bennett	Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol sir Penybont
Hilary Dover	Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
Katy Chamberlain	Fforwm Busnes Pen y Bont ar Ogwr
Simon Pirotte	Coleg Penybont
Stephen Cook	Cymoedd I'r Arfordir
Stuart Parfitt	Heddlu De Cymru
Hefyd yn bresennol	
Judith Jones	Cyngor Bwrdeistref Sirol Penybont ar Ogwr
Lee Jones	Cyngor Bwrdeistref Sirol Penybont ar Ogwr
Yuan Shen	Cyngor Bwrdeistref Sirol Penybont ar Ogwr

Eitem ar yr Agenda	Sylwadau	Cam Gweithredu
1	Croeso	
1.1	Croesawodd DM bawb i gyfarfod cyntaf ffurfiol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Pen-y-bont ar Ogwr. Gofynnodd i bawb ddweud pwy yr oeddent a chroesawodd y rhai a oedd yno am y tro cyntaf.	
2	Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 18.03.16 a'r Materion yn Codi	
2.1	Darllenwyd a chadarnhawyd cofnodion y cyfarfod blaenorol.	
2.2	Roedd y cyfarfod rhagarweiniol i'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol ym mis Mawrth yn gyfle i gyflwyno cefndir y Bwrdd ac i wybod pa adnoddau yr oedd eu hangen ac ym mha fodd y byddai'r aelodau yn ymrwymo i'r gwaith. Y nod hefyd oedd adeiladu ar waith da Bwrdd Gwasanaethau Lleol (BGLI) Pen-y-bont ar Ogwr.	
2.3	Nid oedd dim materion yn codi nad oeddent wedi cynnwys ar yr agenda.	
3	Cylch Gorchwyl Drafft	
3.1	Cyfeiriodd DM at y Cylch Gorchwyl Drafft a gylchredwyd cyn y cyfarfod a chyflwynodd YS rai esiamplau o ddatganiadau gweledigaeth i'w hystyried.	

3.2	<p>Wedi trafod, cytunwyd y dylai'r Weledigaeth:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Adeiladu ar waith da y BGLI ond rhaid oedd gwahaniaethu rhwng y BGLI a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (y BGC); • Mynd y tu hwnt i gydymffurfio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a chanllawiau statudol; • Adlewyrchu aelodaeth arweiniol uwch y BGC, yr uchelgais gyffredin a'r cydweithio; • Ychwanegu gwerth; • Cynnwys cynaliadwyedd a gwneud dinasyddion yn llai dibynol; • Darlunio Pen-y-bont ar Ogwr fel lle gwych i fyw a gweithio ynddo ac i ymweld ag ef. <p>Cam Gweithredu: Bydd ME yn anfon rhai enghreifftiau o ddatganiadau gweledigaeth BGCau eraill a bydd yn awgrymu geiriad a fydd yn addas i Ben-y-bont ar Ogwr.</p>	ME
3.3	<p>Awgrymodd HJ y dylai'r Cylch Gorchwyl nodi'n glir pwy yw cynrychiolwyr yr aelod sefydliadau fel y nodir yn y Ddeddf, a hynny er mwyn dangos ymrwymiad yr arweinwyr uwch. Cam Gweithredu: Bydd JJ yn diweddarau'r Cylch Gorchwyl ac yn ei gylchredeg.</p>	JJ
4	Ymrwymiad ac Adnoddau	
4.1	Cyfeiriodd LJ at y daenlen a gylchredwyd cyn y cyfarfod i'r aelodau ei llenwi.	
4.2	Mae'r rhan fwyaf o'r aelodau yn gallu ymrwymo i ddarparu adnoddau heb fod am dâl, yn arbennig felly i'r Grŵp Data, Gwybodaeth a Deallusrwydd sy'n datblygu'r Asesiad Llesiant.	
4.3	<p>Cadarnhaodd AD fod Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg yn gallu cyfrannu £10,000 tuag at waith y BGC ynghyd â chefnogi'r Grŵp Data, darparu data ac adnoddau eraill heb fod am dâl. Rhaid cwrdd y tu allan i'r cyfarfod hwn i drafod rhagor ar y manylion.</p> <p>Cam Gweithredu: Bydd YS yn trefnu hyn.</p>	YS
4.4	<p>Soniodd LJ wrth y Bwrdd am gyfraniad Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Bydd y Cyngor yn cyfrannu cymorth gweinyddol ac yn cydlynu gwaith y BGC, gan gynnwys yr Asesiad Llesiant. Mae'r Cyngor yn gallu recriwtio Uwch Swyddog Ymchwil a Gwybodaeth i arwain ar yr Asesiad Llesiant. Mae cyllid ar gael am flwyddyn. Anogir secondiadau o sefydliadau sy'n perthyn i'r BGC neu o brifysgolion.</p>	
4.5	<p>Gofynnodd DM i'r aelodau lenwi'r bylchau yn y daenlen. Ategodd unwaith eto mai'r adnodd allweddol oedd arweinyddiaeth yr aelodau.</p> <p>Cam Gweithredu: Bydd yr aelodau yn llenwi'r daenlen.</p>	Pawb
4.6	Nododd AD fod cydweithio, dod â phartneriaid ynghyd i greu sylfaen ar gyfer y gwaith cynllunio, dod ag adnoddau ynghyd a sicrhau bod gwneud penderfyniadau yn rhan annatod o'r gwaith, yn allweddol.	
4.7	<p>Holodd ME ynghylch y cyswllt rhwng yr aelodau. A yw'r aelodau'n gwybod digon am ei gilydd? Gallai dysgu am swyddogaeth pob aelod fod yn ddefnyddiol.</p> <p>Cam Gweithredu: Ystyried cael cyflwyniadau byrion gan bob aelod mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.</p>	Pawb
5	Asesu Llesiant – Y Dull a'r Rhaglen Waith	
5.1	Cyfeiriodd LJ at y papur a gylchredwyd cyn y cyfarfod a amlinellai'r dull a'r llinell amser o ran yr Asesiad Llesiant. Esboniodd fod Uned Ddata Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi'i chomisiynu i gasglu a chyflwyno'r data sy'n deillio o'r set ddata gyffredin, a hynny mewn fformat a oedd yn gyson. Byddai'r	

	Grŵp Data, Gwybodaeth a Deallusrwydd yn arwain y gwaith hwn a byddai'n cyflwyno argymhellion i'r BGC i'w cymeradwyo. Roedd y cais diweddar i Lywodraeth Cymru am £45,000 ar gyfer gweithgareddau ymgysylltu â dinasyddion, mewn cydweithrediad â Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a Dinas a Sir Abertawe, wedi bod yn llwyddiannus.	
5.2	Mynegodd y Bwrdd bryder ynghylch maint y data i'w gasglu a'r modd y byddai'r data'n cael ei ddadansoddi.	
5.3	Gofynnodd EW am ragor o wybodaeth ynghylch asesiadau anghenion blaenorol a'r modd y mae'r data wedi datblygu.	
5.4	Gofynnodd DM i'r Bwrdd fyfyrion ar ddiben y data. Ai'r diben oedd gwybod beth oedd y materion pwysig neu gefnogi gweithgareddau'r BGC? Ni allai'r BGC aros am y data cyn cychwyn ar y gwaith.	
5.5	Awgrymodd DM fod y BGC yn cynnal ymarfer arwain ar y cyd i fynd i'r afael â'r materion pwysig. Cam Gweithredu: Bydd DM yn ystyried hyn.	DM
5.6	Wedi trafod, cytunwyd ar y dull. Bydd BGCau yn gweithredu fel 'rhyddhawyr' yn hytrach na chymryd rhan yn y broses. Cam Gweithredu: cylchredeg rhestr o aelodau'r Grŵp Data.	JJ
6	Asesu Llesiant – Ardaloedd Cymunedol	
6.1	Cyfeiriodd LJ at y papur a gylchredwyd cyn y cyfarfod ynghylch adnabod 'ardaloedd cymunedol' at ddibenion yr Aseiad Llesiant.	
6.2	Hysbysodd DM y Bwrdd nad oedd y cyswllt posib rhwng yr ardaloedd cymunedol a phwyllgorau'r ardaloedd cymunedol, a nodwyd ym Mil drafft Llywodraeth Leol (Cymru), gyn bwysiced ag y credwyd ei fod yn y gorffennol.	
6.3	Hysbysodd LJ y Bwrdd fod y 3 ardal a nodwyd yn opsiwn 1 yr adroddiad yn seiliedig ar ffiniau clystyrau Meddygon Teulu a ffiniau canolfannau ymyrraeth gynnar Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.	
6.4	Wedi trafod, cytunodd y BGC mai opsiwn 1 oedd y gorau.	
7	Adroddiad i Banel Craffu'r BGLI, 18 Ebrill 2016	
7.1	Hysbysodd LJ y Bwrdd i adroddiad cynnydd o ran gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ynghyd â'r newid o fod yn Fwrdd Gwasanaethau Lleol i fod yn Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, gael ei gyflwyno i Banel Craffu'r BGLI ar 18 Ebrill.	
7.2	Derbyniodd y Panel Craffu gynnwys yr adroddiad a gofynnodd am wybodaeth reolaidd ynghylch yr asesiad anghenion ac am gynnydd prosiectau cyfredol.	
8	Gwefan/Cylchlythyr	
8.1	Gofynnodd YS i'r Bwrdd ystyried dyfodol gwefan y BGLI a holodd a ddylid ei newid i fod yn wefan BGC. Esboniodd y byddai hyn yn costio arian. Soniodd hefyd am gylchlythyr a drafodwyd mewn cyfarfod blaenorol o Gadeiryddion y Byrddau Rhaglenni.	
8.2	Wedi trafod, cytunwyd y byddai'n fuddiol datblygu strategaeth gyfathrebu i'r BGC cyn penderfynu. Cam Gweithredu: Bydd YS/JJ yn datblygu strategaeth gyfathrebu ddrafft i'w chymeradwyo.	YS/JJ
9	Unrhyw Fater Arall	
	Nid oedd dim mater arall.	
10	Dyddiad y Cyfarfod Nesaf	
	Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 23 Medi, ond gofynnodd y Bwrdd am gyfarfod cyn hynny. Y dyddiad i'w gadarnhau.	JJ